



# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

## 2020 dccc 1

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, i ddiwygio'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwysio rhag bod yn Aelod o'r Senedd, i wneud darpariaeth ynghylch goruchwyllo gwaith y Comisiwn Etholiadol, i wneud newidiadau amrywiol i'r gyfraith sy'n ymwneud â llywodraethu Cymru, ac at ddibenion cysylltiedig. [15 Ionawr 2020]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

### TROSOLWG

#### 1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

- (1) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Senedd Cymru" neu "the Welsh Parliament" ac yn gwneud newidiadau cysylltiedig.
- (2) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon yn estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol ac yn gwneud newidiadau cysylltiedig i gofrestru etholiadol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig.
- (3) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi eu hanghymhwysio rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.
- (4) Mae Rhan 5 o'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau amrywiol o ran y Senedd a'r etholiadau iddi sydd—
  - (a) yn estyn yr amser pryd y mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad cyffredinol;

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

- (b) yn egluro pwerau Comisiwn y Senedd i godi tâl am ddarparu nwyddau a gwasanaethau;
- (c) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar weithrediad y darpariaethau yn y Ddeddf hon sy'n estyn yr hawl i bleidleisio ac sy'n newid cymhwystra i fod yn Aelod o'r Senedd.
- (5) Mae Rhan 6 o'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch dehongli'r Ddeddf hon, dod â darpariaethau'r Ddeddf i rym, a'r enw byr.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**11** A. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 42\(1\)\(a\)](#)

## RHAN 2

### AILENWI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU ETC.

#### 2 Ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament

Yn adran 1(1) o [Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p. 32\)](#) (“Deddf 2006”), yn lle “the National Assembly for Wales” hyd at y diwedd rhodder “Senedd Cymru or the Welsh Parliament (referred to in this Act as “the Senedd”)”.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**12** A. 2 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

#### 3 Ailenwi Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ddeddfau Senedd Cymru

Yn adran 107(1) o Ddeddf 2006, yn lle “the National Assembly for Wales” hyd at y diwedd rhodder “Senedd Cymru or Deddfau Senedd Cymru (referred to in this Act as “Acts of the Senedd”)”.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**13** A. 3 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

#### 4 Galw aelodau yn Aelodau o'r Senedd

Yn adran 1 o Ddeddf 2006, ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) Members of the Senedd are to be known by that name or as Aelodau o'r Senedd.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

**14** A. 4 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

## 5 Ailenwi Clerc y Cynulliad yn Glerc y Senedd

Yn adran 26(2) o Ddeddf 2006, yn lle “Assembly” rhodder “Senedd, Clerc y Senedd”.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I5** A. 5 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

## 6 Ailenwi Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiwn y Senedd

Yn adran 27(1) o Ddeddf 2006, yn lle “National Assembly for Wales Commission or Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Senedd Commission or Comisiwn y Senedd”.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I6** A. 6 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

## 7 Ailenwi Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiynydd Safonau y Senedd

Yn adran 1(1) o [Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 \(mccc 4\)](#), yn lle “Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “y Senedd”.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I7** A. 7 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

## 8 Ailenwi Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Yn adran 1(1) o [Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Taliadau\) 2010 \(mccc 4\)](#), yn lle “Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “bwrdd i’w alw’n Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd”.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I8** A. 8 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

## 9 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae Atodlen 1 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy’n ymwneud â’r Rhan hon.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I9** A. 9 mewn grym ar 6.5.2020, gweler [a. 42\(2\)](#)

### RHAN 3

#### ETHOLIADAU

##### Estyn yr hawl i bleidleisio

#### 10 Estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau 16 a 17 oed

- (1) Mae adran 12 (yr hawl i bleidleisio) o Ddeddf 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1)(a), ar ôl “constituency” mewnosoder “or fall within the extended franchise for Senedd elections as described in this section”.
- (3) Ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

“(1A) A person falls within the extended franchise for Senedd elections if the person—

  - (a) has attained the age of 16, but not the age of 18, and
  - (b) would, but for any disability removed by this section, be entitled to vote as an elector at a local government election in an electoral area wholly or partly included within the Senedd constituency.”
- (4) Mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn cael effaith at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I10** A. 10 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 42\(1\)\(b\)\(i\)](#)

#### 11 Estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i ddinasyddion tramor cymhwysol

- (1) Ar ôl adran 12(1A) o Ddeddf 2006, mewnosoder—

“(1B) A person falls within the extended franchise for Senedd elections if the person—

  - (a) is a qualifying foreign citizen (within the meaning given by section 203(1) of the [Representation of the People Act 1983 \(c. 2\)](#)), and
  - (b) would, but for any disability removed by this section, be entitled to vote as an elector at a local government election in an electoral area wholly or partly included within the Senedd constituency.”
- (2) Mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn cael effaith at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I11** A. 11 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 42\(1\)\(b\)\(ii\)](#)

## Cofrestru etholiadol

### 12 Yr hawl i gofrestru yn etholwr llywodraeth leol

(1) Yn adran 4 o **Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2)** (“Deddf 1983”) (yr hawl i gofrestru yn etholwr llywodraeth leol)—

- (a) yn is-adran (3)(d), ar ôl “age” mewnosoder “or, if resident in an area in Wales, is 16 years of age or over”;
- (b) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(3A) A person is also entitled to be registered in the register of local government electors for any electoral area in Wales if on the relevant date the person—

- (a) is resident in that area,
- (b) is not subject to any legal incapacity to vote (age apart) in an election of members (or of a member) of Senedd Cymru,
- (c) is a qualifying foreign citizen, and
- (d) is 16 years of age or over.”;

- (c) ar ôl is-adran (5A) mewnosoder—

“(5B) In relation to a register of local government electors for any electoral area in Wales, the reference to “voting age” in subsection (5) is to be interpreted as “16 years of age”.”.

(2) Yn adran 203(1) o **Ddeddf 1983 (darpariaethau llywodraeth leol o ran Cymru a Lloegr)** ar ôl y diffiniad o “London member” mewnosoder—

““qualifying foreign citizen” means a person who—

- (a) is not a Commonwealth citizen, a citizen of the Republic of Ireland or a relevant citizen of the Union, and
- (b) either—
  - (i) is not a person who requires leave under the Immigration Act 1971 to enter or remain in the United Kingdom, or
  - (ii) is such a person but for the time being has (or is, by virtue of any enactment, to be treated as having) any description of such leave.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I12** A. 12 mewn grym ar 1.6.2020, gweler **a. 42(3)(a)**

### 13 Canfasio blynyddol

(1) Yn adran 9A o **Ddeddf 1983 (swyddogion cofrestru: dyletswydd i gymryd camau angrheidiol)**, ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) In relation to the registration of local government electors in Wales, subsections (1) and (2)(b) do not require a registration officer to make house to house inquires in relation to any person under the age of 16.”

(2) Yn rheoliad 32ZA o **Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (O.S. 2001/341)** (“Rheoliadau 2001”) (ffurflen ganfasio blynyddol)—

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

(a) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) In relation to the registration of local government electors in Wales, the canvass form in paragraph (2) must also—

- (a) require the full name and nationality of each person aged 14 or 15 who is eligible to register and is residing at the address to which the form is given, and
- (b) in relation to any such person named in the form, require the person’s date of birth to be included.”;

(b) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(5A) In relation to the registration of local government electors in Wales, the registration officer must not, under paragraph (5), print on the form the date of birth of any person aged under 16.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I13** A. 13 mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

## 14 Gwahoddiadau i gofrestru

(1) Yn adran 9E o Ddeddf 1983 (cynnal cofrestrau: gwahoddiadau i gofrestru ym Mhrydain Fawr), ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

“(7A) In relation to the registration of local government electors in Wales, subsection (7) does not apply to a person who was under the age of 16 at the time the requirement was imposed.”

(2) Yn rheoliad 32ZC o Reoliadau 2001 (gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) In relation to the registration of local government electors in Wales, where the person to be invited is under the age of 16, the invitation in paragraph (1) must also include an explanation of how the person’s information will be held and used.”

(3) Yn rheoliad 32ZD o Reoliadau 2001 (camau i’w cymryd gan swyddog cofrestru i annog person i wneud cais i gofrestru mewn ymateb i wahoddiad i wneud hynny), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) In relation to the registration of local government electors in Wales, paragraph (3) does not require a registration officer to make, or have made, any visits in the case where the invitations were given to a person under the age of 16.”

(4) Yn rheoliad 32ZE o Reoliadau 2001 (ei gwneud yn ofynnol i berson wneud cais i gofrestru), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) In relation to the registration of local government electors in Wales, the following provisions of this regulation do not apply in the case of a person who is under the age of 16—

- (a) paragraphs (2)(b)(iii) and (3)(b) and (c);

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

- (b) paragraph (3)(f), so far as requiring a notice to state that the person may make representations about why a civil penalty should not be imposed.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I14** A. 14 mewn grym ar 1.6.2020, gweler **a. 42(3)(a)**

### 15 Gwahoddiadau i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am wahoddiadau i’w rhoi o dan adran 9E(1) o Ddeddf 1983 (gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru) mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth—
  - (a) ynghylch ffurf a chynnwys gwahoddiadau;
  - (b) ynghylch sut a phryd y mae’n rhaid rhoi gwahoddiadau;
  - (c) sy’n ei gwneud yn ofynnol bod ffurflenni cais neu ddogfennau eraill (gan gynnwys ffurflenni cais a gwblhawyd yn rhannol) yn cyd-fynd â gwahoddiadau, neu’n cael eu cyfuno â gwahoddiadau.
- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) roi swyddogaethau i’r Comisiwn Etholiadol (er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i’r Comisiwn ddylunio gwahoddiad).
- (4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, diddymu (neu ddirymu) neu addasu unrhyw ddeddfiad.
- (5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cyfryw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I15** A. 15 mewn grym ar 1.6.2020, gweler **a. 42(3)(a)**

### 16 Ceisiadau i gofrestru

- (1) Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn rheoliad 24 (tystiolaeth o ran oedran a chenedligrwydd), ar ôl “Union” mewnosoder “or (for the purposes only of the registration of local government electors in Wales) a qualifying foreign citizen”.
- (3) Yn rheoliad 26 (ceisiadau i gofrestru)—
  - (a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) In relation to the registration of local government electors in Wales, where the applicant is not able to provide the applicant’s date of birth, the statement referred to in paragraph (1)(e) must indicate whether the applicant is—

    - (a) under the age of 16,
    - (b) aged 16 or 17, or
    - (c) aged 18 or over.”;

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

- (b) ym mharagraff (3), ar ôl “(1)” mewnosoder “, (1A)”;
  - (c) ym mharagraff (3)(ba), ar ôl “Union” mewnosoder “or (for the purposes only of the registration of local government electors in Wales) a qualifying foreign citizen”;
  - (d) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—
    - “(3A) In relation to the registration of local government electors in Wales, the paper application form under paragraph (3) must also include an explanation of how information about applicants under the age of 16 will be held and used.”;
  - (e) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—
    - “(9A) In relation to the registration of local government electors in Wales, paragraphs (1)(f) and (8)(a) do not apply in the case where the applicant is under the age of 16.”
- (4) Yn rheoliad 26B (pŵer i ofyn am dystiolaeth ychwanegol lle nad oes gwybodaeth benodol ar gael neu lle bo’r swyddog cofrestru o’r farn bod y dystiolaeth yn angenrheidiol), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—
- “(6A) In relation to the registration of local government electors in Wales, paragraphs (2) to (6) do not apply in the case where the applicant is under the age of 16 if—
    - (a) there is information available to the registration officer from any educational record relating to the applicant, and
    - (b) that information is sufficient to satisfy the registration officer as to the applicant’s identity and entitlement to be registered.”
- (5) Yn rheoliad 28 (archwilio ceisiadau a gwrthwynebiadau), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—
- “(3) In relation to the registration of local government electors in Wales, this regulation does not apply to an application made by a person under the age of 16.”
- (6) Yn rheoliad 29ZA (gwirio gwybodaeth a ddarparwyd mewn cais), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—
- “(6A) In relation to the registration of local government electors in Wales, this regulation does not apply to an application made by a person under the age of 16.”

#### **Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** A. 16 mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

## **17 Adolygu’r hawl i gofrestru**

- (1) Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn rheoliad 31D (gweithdrefn ar gyfer adolygu’r hawl i gofrestru), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—



*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

“(3A) In relation to the registration of local government electors in Wales, paragraph (2)(b) does not apply where the subject of the review is under the age of 16.”

(3) Yn rheoliad 31E (rhestr o adolygiadau), ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) In relation to the registration of local government electors in Wales, this regulation does not apply to any review where the subject of the review is under the age of 16.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

I17 A. 17 mewn grym ar 1.6.2020, gweler a. 42(3)(a)

### 18 Cofrestru'n ddiennw

Yn rheoliad 31J o Reoliadau 2001 (cofrestru'n ddiennw: tystiolaeth drwy ardystio), ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(6) In relation to the registration of local government electors in Wales, where the applicant is under the age of 16 on the date on which the application is made—

- (a) “qualifying officer” also includes a person authorised in writing for the purposes of this regulation by an officer referred to in paragraph (4)(h), and
- (b) where the attestation is signed by a person so authorised, the attestation must be accompanied by a copy of the person’s authorisation.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

I18 A. 18 mewn grym ar 1.6.2020, gweler a. 42(3)(a)

### 19 Datganiadau o gysylltiad lleol

(1) Mae adran 7B o Ddeddf 1983 (preswylfa dybiannol: datganiadau o gysylltiad lleol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) In relation to the registration of local government electors in Wales, this section also applies to a person who, on the date on which the person makes a declaration under subsection (1)—

- (a) is under 18 years of age,
- (b) does not fall within any of the paragraphs (a) to (c) of subsection (2), and
- (c) meets any of the requirements specified in subsection (2B).

(2B) The requirements are that—

- (a) the person is, or has been, a child who is looked after by a local authority, or

---

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

---

- (b) the person is being kept in any secure accommodation specified in regulations made by the Welsh Ministers in circumstances specified in the regulations.
- (2C) The power to make regulations under subsection (2B)(b) is exercisable by statutory instrument and is subject to annulment in pursuance of a resolution of the Senedd.
- (2D) In subsection (2B)—
- (a) the reference to a child who is looked after by a local authority has the same meaning as in the [Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014 \(anaw 1\)](#) (see section 74);
  - (b) “secure accommodation” means accommodation for the purpose of restricting the liberty of persons under the age of 18.”
- (3) Yn is-adran (3)(e), ar ôl “Union” mewnosoder “or (if the declaration is made for the purposes only of the registration of local government electors in Wales) a qualifying foreign citizen”.
- (4) Yn is-adran (4), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—
- “(c) in the case of a person falling within subsection (2A), any of the following—
    - (i) an address in Wales at which the person has previously been resident, or
    - (ii) an address used by a council of a county or county borough in Wales in which the person has previously been resident.”
- (5) Ar ôl is-adran (7) mewnosoder—
- “(7A) Despite anything in subsection (7), in relation to Wales, a relevant declaration made by a person has effect only for the person’s registration as a local government elector.
- (7B) In subsection (7A) a “relevant declaration” means—
- (a) a declaration of local connection made by virtue of subsection (2A);
  - (b) a declaration of local connection made by a qualifying foreign citizen;
  - (c) any other declaration of local connection made by a person who, on the date on which the declaration is made, is—
    - (i) under the age of 17, and
    - (ii) not entitled to be registered in the register of parliamentary electors.
- (7C) A relevant declaration referred to in subsection (7A) must be marked to show that it is available only for the purposes of registration as a local government elector, but otherwise is to be the same as other declarations of local connection.”

---

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** A. 19 mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

## 20 Datganiadau o wasanaeth

(1) Mae Deddf 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 14 (cymhwyster gwasanaeth), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(1A) In relation to the registration of local government electors in Wales, a person also has a service qualification for the purposes of this Act if—

- (a) the person is under the age of 18,
- (b) a parent or guardian of the person has a service qualification under any of paragraphs (a) to (e) of subsection (1), and
- (c) the person is residing at a particular place in order to be with that parent or guardian.”

(3) Yn adran 15 (datganiad o wasanaeth)—

(a) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(3A) In relation to the registration of local government electors in Wales, a service declaration made by a person by virtue of a service qualification under section 14(1A) ceases to have effect when the person attains the age of 18.

(3B) Without prejudice to subsection (2), a person registered in a register of local government electors in Wales in pursuance of a service declaration referred to in subsection (3A) ceases to be entitled to remain so registered when the person attains the age of 18.

(3C) Where a person’s entitlement to remain registered ceases under subsection (3B), the registration officer must remove the person’s entry from the register.”

(b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

“(5A) Despite anything in subsection (5), in relation to Wales, a relevant service declaration made by a person has effect only for the purposes of the person’s registration as a local government elector.

(5B) In subsection (5A), “relevant service declaration” means—

- (a) a service declaration made by virtue of a service qualification under section 14(1A);
- (b) a service declaration made by a qualifying foreign citizen;
- (c) any other service declaration made by a person who, on the date on which the declaration is made, is—
  - (i) under the age of 17, and
  - (ii) not entitled to be registered in the register of parliamentary electors.

(5C) A relevant service declaration referred to in subsection (5A) must be marked to show that it is available only for the purposes of registration as a local government elector, but otherwise is to be the same as other service declarations.”

(4) Yn adran 16 (cynnwys datganiad o wasanaeth)—

(a) mae’r testun presennol yn dod yn is-adran (1);

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

- (b) yn yr is-adran honno, ym mharagraff (e), ar ôl “Union” mewnosoder “or (if the declaration is made for the purposes only of the registration of local government electors in Wales) a qualifying foreign citizen”;
- (c) ar ôl yr is-adran honno mewnosoder—

“(2) In relation to the registration of local government electors in Wales, a service declaration made by a person claiming to have a service qualification under section 14(1A) does not require to be attested.”

(5) Yn adran 17 (effaith datganiad o wasanaeth)—

- (a) yn is-adran (1)(c), ar ôl “Union” mewnosoder “or (if the declaration is made for the purposes only of the registration of local government electors in Wales) a qualifying foreign citizen”;
- (b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(3) In relation to the registration of local government electors in Wales, subsection (2) is subject to section 15(3A).”

#### Gwybodaeth Cychwyn

I20 A. 20 mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

## 21 Cynnwys datganiadau o wasanaeth

(1) Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 15 (cynnwys datganiad o wasanaeth)—

- (a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) In relation to the registration of local government electors in Wales, paragraph (1)(c) does not apply in a case where the declarant claims a service qualification under section 14(1A) of the 1983 Act (see instead regulation 15A).”;

- (b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) In relation to the registration of local government electors in Wales, the reference to “Government department” in paragraph (3) includes any organisation in which a Crown servant works.”

(3) Ar ôl rheoliad 15 mewnosoder—

#### “15A Contents of service declaration: declarant with a service qualification under section 14(1A) of the 1983 Act

(1) In relation to the registration of local government electors in Wales, a service declaration by a person claiming a service qualification under section 14(1A) of the 1983 Act must include, in addition to the matters specified in regulation 15(1)(a) and (b), such of the particulars specified in paragraph (2), (3) or (4) as are relevant to the declarant.

(2) Where the declarant claims a service qualification on the grounds that a parent or guardian of the declarant is a member of the forces (within the meaning of

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

section 59(1) of the 1983 Act) or the spouse or civil partner of such a member, the declaration must state—

- (a) the service (whether naval, military or air forces) in which the member serves,
  - (b) the rank or rating of the member,
  - (c) the service number of the member, and
  - (d) where the member serves in the military forces, the regiment or corps in which the member serves.
- (3) Where the declarant claims a service qualification on the grounds that a parent or guardian of the declarant is a Crown servant to whom regulation 14 applies or the spouse or civil partner of such a servant, the declaration must state—
- (a) the name of the organisation in which the servant works,
  - (b) a description of the post of the servant, and
  - (c) any staff number, payroll number or other similar identifying number of the servant.
- (4) Where the declarant claims a service qualification on the grounds that a parent or guardian of the declarant is a British Council employee or the spouse or civil partner of such an employee, the declaration must state—
- (a) a description of the post of the employee, and
  - (b) any staff number, payroll number or other similar identifying number of the employee.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

I21 A. 21 mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

## 22 Datganiadau o wasanaeth: darpariaeth bellach

- (1) Mae Rheoliadau 2001 wedi eu diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn rheoliad 25 (atgoffa etholwyr a gofrestrwyd yn unol â datganiad), ar ôl paragraff (4) mewnosoder—
  - “(5) In relation to the registration of local government electors in Wales, paragraphs (6) and (7) apply in the case of a person registered in pursuance of a service declaration made by virtue of a service qualification under section 14(1A) of the 1983 Act.
  - (6) The registration officer must send to the person a reminder that the person’s declaration will cease to have effect, and that the person’s entitlement to remain registered will cease, when the person attains the age of 18.
  - (7) The reminder must be sent as soon as practicable within the period of 3 months ending on the day on which the person attains the age of 18.”
- (3) Yn rheoliad 26B (pŵer i ofyn am dystiolaeth ychwanegol lle nad oes gwybodaeth benodol ar gael neu lle bo’r swyddog cofrestru o’r farn bod hynny’n angenrheidiol)—
  - (a) ym mharagraff (7)—
    - (i) yn lle “(6)” rhodder “(6A)”;
    - (ii) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

- “(ca) in relation to the registration of local government electors in Wales, a service declaration on the grounds that the applicant has a service qualification under section 14(1A) of the 1983 Act;”;
- (b) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—
- “(9A) In the case of an application in pursuance of a service declaration within paragraph (7)(ca), the registration officer may require that the applicant give the officer one of the following documents or a copy of one of them certified by a relevant official—
- (a) the applicant’s passport, or
- (b) the applicant’s identity card issued in the European Economic Area.
- (9B) In paragraph (9A), “relevant official” means—
- (a) a Crown Servant (within the meaning of regulation 14),
- (b) a British Council employee, or
- (c) an officer of the forces (within the meaning of section 59(1) of the 1983 Act),
- who is not the applicant’s parent, guardian, spouse or civil partner.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

I22 A. 22 mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

### 23 Cofrestr etholwyr

Yn adran 9 o Ddeddf 1983 (cofrestrau etholwyr), ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

- “(5A) In relation to the registration of local government electors in Wales—
- (a) the entry in the combined registers of any person aged 16 or 17 who is registered only as a local government elector must give the date on which the person will attain the age of 18;
- (b) the entry in the combined registers of any person who is registered only as a local government elector by virtue of section 4(3A) of this Act must give an indication of that fact.”

#### Gwybodaeth Cychwyn

I23 A. 23 mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

### 24 Diogelu gwybodaeth am bersonau o dan 16 oed

- (1) Ni chaiff swyddog cofrestru gyhoeddi, cyflenwi neu ddatgelu fel arall wybodaeth person ifanc, heblaw yn unol â’r canlynol—
- (a) adran 25, neu
- (b) rheoliadau o dan adran 26.
- (2) Yn yr adran hon ac adrannau 25 a 26—

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

ystyr “cofnod neu restr o bleidleiswyr absennol” (“*absent voters record or list*”) yw unrhyw un neu rador o’r canlynol—

- (a) cofnod a gedwir o dan erthygl 8(3), 9(6) neu 12(6) o Orchymyn 2007;
- (b) rhestr a gedwir o dan erthygl 10 neu 12(8) o Orchymyn 2007;
- (c) <sup>[F1]</sup>i’r graddau y mae’n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol, cofnod a gedwir o dan baragraff 3(4) neu 7(6) o Atodlen 4 i [Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 \(p. 2\)](#) (pleidleisio absennol);;
- (d) i’r graddau y mae’n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol, rhestr a gedwir o dan baragraff 5 neu 7(8) o’r Atodlen honno; ]

mae “cofrestr o etholwyr llywodraeth leol” (“*register of local government electors*”) yn cynnwys unrhyw hysbysiad o addasiad yn y gofrestr o dan adran 13A(2), 13AB(2) neu 13B(3), (3B) neu (3D) o [Ddeddf 1983](#);

ystyr “gwybodaeth person ifanc” (“*a young person’s information*”) yw unrhyw—

- (a) cofnod yn y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol, neu
- (b) eitem mewn cofnod neu restr o bleidleiswyr absennol,

sy’n ymwneud â pherson sydd, adeg cyhoeddi neu gyflenwi’r wybodaeth neu ei datgelu fel arall, o dan 16 oed, ac mae “person ifanc” i’w ddehongli yn unol â hynny;

mae “swyddog cofrestru” (“*registration officer*”) yn cynnwys—

- (a) dirprwy i swyddog cofrestru;
- (b) person a benodir i gynorthwyo swyddog cofrestru i gyflawni swyddogaethau’r swyddog cofrestru;
- (c) person, yng nghwrs cyflogaeth y person, sy’n cynorthwyo swyddog cofrestru i gyflawni’r swyddogaethau hynny.

<sup>[F2]</sup>(3) Yn adrannau 25 a 26, ystyr “etholiad llywodraeth leol” yw—

- (a) etholiad ar gyfer cynghorwyr dros unrhyw ward etholiadol neu ward gymunedol yng Nghymru neu, yn achos cymuned yng Nghymru lle nad oes unrhyw wardiau, y gymuned, y cynhelir yr etholiad ar gyfer cynghorwyr ar ei chyfer o dan [Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 \(p. 70\)](#), neu
- (b) etholiad i ethol maer etholedig (o fewn ystyr adran 39(1) o [Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 \(p. 22\)](#)) ar gyfer awdurdod lleol yng Nghymru.]

#### Diwygiadau Testunol

**F1** Geiriau yn a. 24(2) wedi eu mewnosod (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), a. 175(3)(f), **Atod. 2 para. 15(2)(a)** (ynghyd ag a. 3)

**F2** A. 24(3) wedi ei fewnosod (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), a. 175(3)(f), **Atod. 2 para. 15(2)(b)** (ynghyd ag a. 3)

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I24** A. 24 mewn grym ar 1.6.2020, gweler a. 42(3)(a)

## 25 Eithriadau i’r gwaharddiad ar ddatgelu

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys at ddiben adran 24(1).

---

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

---

- (2) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i unrhyw berson i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol at ddiben cyflawni swyddogaethau'r person hwnnw mewn cysylltiad ag—
- (a) cofrestru etholwyr, neu
  - (b) cynnal etholiad.
- (3) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc yn unol â rheoliad [F332ZBD(9) a (9A)] o Reoliadau 2001 (rhagboblogi'r ffurflen ganfasio).
- (4) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc (oni bai am unrhyw wybodaeth y gellid canfod dyddiad geni'r person oddi wrthi) mewn fersiwn neu gopi o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol neu gofnod neu restr o bleidleiswyr absennol a gyflenwir yn unol â deddfiad cyflenwi perthnasol, ond dim ond i'r graddau y bo gwneud hynny'n angenrheidiol at ddibenion etholiad lle y bydd gan y person ifanc hawl i bleidleisio neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath.
- (5) Yn is-adran (4), ystyr “deddfiad cyflenwi perthnasol” yw—
- (a) rheoliad 100 o Reoliadau 2001 (cyflenwi i'r Comisiwn Etholiadol);
  - (b) rheoliad 104 o Reoliadau 2001 (cyflenwi i ddeiliaid swyddi etholiadol perthnasol ac ymgeiswyr), i'r graddau y mae'n gymwys i Aelod o'r Senedd [F4, i aelod o awdurdod lleol yng Nghymru, i faer etholedig ar gyfer awdurdod lleol yng Nghymru neu i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol];
  - (c) rheoliad 108 o Reoliadau 2001 (cyflenwi i ymgeiswyr), i'r graddau y mae'n gymwys i ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd [F5 neu mewn etholiadau llywodraeth leol];
  - (d) rheoliad 102 o Reoliadau 2001 (darpariaeth gyffredinol), i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliadau 104 a 108;
  - [F6(e) rheoliad 61 o reoliadau 2001 (cofnodion neu restrau pleidleiswyr absennol) i'r graddau y mae'n gymwys i etholiadau llywodraeth leol ac unrhyw ddeddfiad sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r rheoliad hwnnw mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd;]
  - [F7(f) rheoliad 98 o reoliadau 2001 (cyflenwi i swyddogion canlyniadau) i'r graddau y mae'n gymwys i swyddogion canlyniadau cyngorau cymuned a swyddogion canlyniadau ar gyfer unrhyw etholiadau'r Senedd ac unrhyw ddeddfiad sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i reoliad 98(4) mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd.]
- (6) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i unrhyw berson i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol sy'n ymwneud â throedd (neu drosedd honedig) o dan unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud ag—
- (a) cofrestru etholwyr, neu
  - (b) cynnal etholiadau.
- (7) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i'r person ifanc y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef.
- (8) Rhaid i swyddog cofrestru gyflenwi gwybodaeth person ifanc i'r person ifanc y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef os bydd y person ifanc yn gofyn am yr wybodaeth at ddiben gwirio bod y person ifanc yn rhoddwr a ganiateir o fewn ystyr (“permissible donor”) yn adran 54(2)(a) o [Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000](#) (p. 41).



*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

- (9) Caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc i berson a benodwyd yn ddirprwy i bleidleisio ar ran y person ifanc y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef.
- (10) Ni chaiff person y datgelwyd gwybodaeth person ifanc iddo o dan is-adran (2) neu (6) ddatgelu'r wybodaeth i berson arall, ac eithrio fel y crybwyllir yn yr is-adran honno.
- (11) Mae person sy'n torri is-adran (10) yn cyflawni trosedd ac mae'n agored i ddirwy ar euogfarn ddiannod.

#### Diwygiadau Testunol

- F3** Geiriau yn a. 25(3) wedi eu hamnewid (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), a. 175(3)(f), **Atod. 2 para. 15(3)(a)** (ynghyd ag a. 3)
- F4** Geiriau yn a. 25(5)(b) wedi eu mewnosod (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), a. 175(3)(f), **Atod. 2 para. 15(3)(b)(i)** (ynghyd ag a. 3)
- F5** Geiriau yn a. 25(5)(c) wedi eu mewnosod (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), a. 175(3)(f), **Atod. 2 para. 15(3)(b)(ii)** (ynghyd ag a. 3)
- F6** A. 25(5)(e) wedi ei amnewid (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), a. 175(3)(f), **Atod. 2 para. 15(3)(b)(iii)** (ynghyd ag a. 3)
- F7** A. 25(5)(f) wedi ei amnewid (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), a. 175(3)(f), **Atod. 2 para. 15(3)(b)(iv)** (ynghyd ag a. 3)

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I25** A. 25 mewn grym ar 1.6.2020, gweler a. 42(3)(a)

## 26 Darpariaeth bellach ar gyfer eithriadau

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer neu ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd<sup>F8</sup>, etholiadau llywodraeth leol neu refferenda lleol].
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth—
  - (a) yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru gyflenwi neu ddatgelu fel arall unrhyw wybodaeth person ifanc i bersonau a bennir yn y rheoliadau;
  - (b) yn pennu, mewn perthynas ag unrhyw ddisgrifiad o bersonau a bennir yn y rheoliadau yn unol â pharagraff (a), y dibenion y caniateir defnyddio unrhyw wybodaeth person ifanc a gyflenwyd neu a ddatgelwyd fel arall;
  - (c) yn gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau sy'n ymwneud â'r graddau (os o gwbl) y caiff personau y cyflenwyd neu y datgelwyd unrhyw wybodaeth person ifanc iddynt (boed hynny yn unol â'r rheoliadau neu fel arall)—
    - (i) cyflenwi neu ddatgelu fel arall yr wybodaeth i bersonau eraill;
    - (ii) gwneud defnydd o'r wybodaeth ac eithrio at unrhyw ddibenion a bennir yn y rheoliadau neu'r dibenion y cyflenwyd neu y datgelwyd yr wybodaeth fel arall yn unol â'r rheoliadau;
  - (d) yn gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau sy'n cyfateb i'r rhai y caniateir eu gosod yn rhinwedd paragraff (c) mewn perthynas ag—
    - (i) personau y mae unrhyw wybodaeth person ifanc wedi ei chyflenwi neu ei datgelu fel arall iddynt yn unol â rheoliadau a wneir yn unol â pharagraff (c) neu'r paragraff hwn, neu

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. (See end of Document for details)*

- (ii) personau sydd fel arall â mynediad at unrhyw wybodaeth person ifanc;
  - (e) yn gosod, mewn perthynas â phersonau sy'n ymwneud â pharatoi'r gofrestr lawn o etholwyr llywodraeth leol, waharddiadau sy'n ymwneud â chyflenwi copïau o'r gofrestr lawn a datgelu unrhyw wybodaeth person ifanc a gynhwysir ynddi.
- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—
- (a) diwygio, diddymu neu addasu darpariaeth yn adran 25;
  - (b) gwneud darpariaeth drwy gyfeirio at ddeddfiadau eraill sy'n ymwneud â chyflenwi neu ddatgelu'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol, neu gopïau ohoni neu'r cofnodion ynddi;
  - (c) darparu ar gyfer creu troseddau sydd i'w cosbi drwy ddirwy ar euogfarn ddiannod.
- (4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.
- [<sup>F9</sup>(5) Yn yr adran hon, ystyr “refferendwm lleol” yw refferendwm a gynhelir o dan—
- (a) adran 27 o [Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 \(p. 22\)](#) neu yn rhinwedd rheoliadau neu orchymyn a wnaed o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno, neu
  - (b) adran 40 o [Fesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2011 \(mccc 2\)](#).]

#### Diwygiadau Testunol

- F8** Geiriau yn [a. 26\(1\)](#) wedi eu mewnosod (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), [a. 175\(3\)\(f\)](#), **Atod. 2 para. 15(4)(a)** (ynghyd ag [a. 3](#))
- F9** [A. 26\(5\)](#) wedi ei fewnosod (20.3.2021) gan [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021 \(asc 1\)](#), [a. 175\(3\)\(f\)](#), **Atod. 2 para. 15(4)(b)** (ynghyd ag [a. 3](#))

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I26** [A. 26](#) mewn grym ar 1.6.2020, gweler [a. 42\(3\)\(a\)](#)

## 27 **Diwygiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007**

- (1) Mae Gorchymyn 2007 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn erthygl 2(1)—
- (a) ar ôl y diffiniad o “qualifying Commonwealth citizen” mewnosoder—
    - ““qualifying foreign citizen” means a person who—
    - (a) is not a Commonwealth citizen, a citizen of the Republic of Ireland or a relevant citizen of the Union, and
    - (b) either—
      - (i) is not a person who requires leave under the Immigration Act 1971 to enter or remain in the United Kingdom, or
